




Peter Hill
Rheolwr Craffu
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF991NA

24ain Rhagfyr 2014

Annwyl Peter,

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd - Sesiwn Tystiolaeth Parciau Cenedlaethol Cymru 28ain Tachwedd 2014**

Ar ran y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol dymunwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am y cyfle i roi tystiolaeth ar y craffu ar y Bil Cynllunio.

Bydd yn amlwg i chi o'n sesiwn tystiolaeth ein bod yn gefnogol o nodau ac amcanion cyffredinol y Bil. Credwn y bydd y Bil yn gymorth i gyflawni system gynllunio mwy cadarnhaol, cadarn a chyson all ddygymod â heriau mawr y dyfodol. Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ymhlith y perfformwyr gorau ar hyn o bryd o ran dangosyddion perfformiad cynllunio, ac edrychwn ymlaen at chwarae rôl arwyddocaol mewn cyflawni'r canlyniadau y mae'r Bil yn dymuno eu gweld.

Yn ystod y sesiwn gofynnwyd cwestiwn i ni ynglŷn â'r cyfraniad canlynol gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gynharach yn y sesiwn:

"*Barnaf ei bod yn werth cofnodi hefyd ar gyfer y pwyllgor fy mod am wneud gwelliant yn ddiweddarach i'r Bil, fydd yn caniatáu i bob awdurdod cynllunio ar draws Cymru yr un pŵer rheoleiddio, sef pob un o'r 22 awdurdod lleol a'r awdurdodau parciau cenedlaethol. Byddaf yn ceisio diwygio'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth.*"

Nid oeddem yn ymwybodol o'r hyn ddywedodd y Gweinidog, felly barnwn nad oedd ein hymateb i'r cwestiwn mor gyflawn ac ystyriol ag y byddwn wedi'i ddymuno. Dyma gyflwyno'r wybodaeth ganlynol felly i Aelodau'r Pwyllgor i'w hystyried.

/parhad...

Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales

Parc Llanion / Llanion Park
Doc Penfro / Pembroke Dock
SA72 6DY

Ffôn / telephone: 0845 345 7275
E-bost / e-mail:
gofyn@parciaucenedlaetholcymru.gov.uk
ask@nationalparkswales.gov.uk

1. Sail statudol y pwerau cynllunio gwlad a thref yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yw:-
    1.1 Deddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995");
    1.2 Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 ("Gorchymyn 1995"); a
    1.3 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990").

2. O dan adran 63 o Ddeddf 1995 caniatawyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, i sefydlu awdurdod ar gyfer Parc Cenedlaethol, a elwid yn "Awdurdod Parc Cenedlaethol", i gyflawni'r swyddogaethau a roddir i'r cyfryw awdurdod gan neu o dan Rhan III o'r Ddeddf honno. Roedd Rhan III o Ddeddf 1995, ymhlith pethau eraill, wedi cynnwys adran newydd 4A yn Neddf 1990, oedd yn darparu ar gyfer caniatáu i Awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn awdurdod cynllunio lleol. Hefyd roedd Rhan III o Ddeddf 1990, yn rhoi, ymhlith swyddogaethau statudol eraill, swyddogaethau o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949; Deddf Cefn Gwlad 1968; a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

3. Gwnaed Gorchymyn 1995 yn unol ag adran 63 o Ddeddf 1995 a daeth i rym ar y 23ain o Dachwedd 1995. Yn unol ag Erthygl 3 o Ddeddf 1995, ar y 23ain o Dachwedd 1995, sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog ac Eryri. Yn unol ag Erthygl 5 o Orchymyn 1995, gwnaed adran 4A o Ddeddf 1990 yn gymwys i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o'r 1af o Ebrill 1996.

4. Mae adran 4A o Ddeddf 1990 yn pennu mai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r unig awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Golyga hyn mai'r awdurdod yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer paratoi cynllun datblygu a rheoli datblygu. Felly:
    4.1 mae swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Deddfau Cynllunio i awdurdod cynllunio, mewn perthynas â'r Parc, yn swyddogaethau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol; ac
    4.2 i'r graddau bod ardal unrhyw awdurdod arall wedi'i chynnwys yn y Parc Cenedlaethol, nid yr awdurdod arall hwnnw yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal honno.

5. Tra bod sail statudol pwerau cynllunio gwlad a thref yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn deillio o Ddeddf 1995 a deddfwriaeth eilaidd a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno, sef Gorchymyn 1995, barnwn bod Awdurdod Parc Cenedlaethol eisoes yn meddu ar yr un pwerau cynllunio ag awdurdodau cynllunio lleol eraill.

/parhad...

Wrth gloi, barnwn bod pob un o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru â'r un pwerau rheoleiddio ar hyn o bryd. Byddwn yn ddiolchgar i dderbyn unrhyw wybodaeth bellach ar y mater hwn i'n galluogi i ystyried yr effaith bosibl ar ein gwaith.

Yn gywir



Anfonwyd ar ran:
Martin Buckle, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Jane Gibson, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Jonathan Cawley, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri